

Carmen

Opera gan Georges Bizet

Rydym yn falch eich bod wedi mwynhau gwylio **Chwarae Opera** a dysgu llawer am Carmen.



Mae cymryd rhan mewn cynhyrchiad yn gyflwyniad gwych i opera, ac yma gallwch greu penwsg y prif gymeriad, y sipsi, a llwyfannu eich cynhyrchiad eich hun gartref, efallai.

Dyma grynhoad diddorol i chi o'r stori:

Cafodd ei chyfansoddi gan y cyfansoddwr Ffrengig, Georges Bizet, ac mae'n un o'r operâu mwyaf poblogaidd erioed. Fel nifer o operâu gorau'r byd, mae'n archwilio rhai syniadau mawr yn cynnwys serch, cenfigen ac angerdd.

Sipsi yw Carmen, sy'n gweithio mewn ffatri yn Seville, Sbaen. Mae hi'n ferch brydferth tu hwnt, ac mae pobl yn cael eu swyno a'u rhyfeddu ganddi. Mae hi'n disgyn mewn cariad gyda milwr, Don José, sydd wedi'i addo i Micaela, merch o'i bentref genedigol. Mae'n penderfynu bod gyda'r Carmen brydferth, ond yna mae hi'n cwrdd â'r matador enwog, Escamillo.


Mae fel seren roc, ac mae pobl yn galw ei enw lle bynnag mae'n mynd, ac mae Carmen yn disgyn mewn cariad ag ef.

Mae'r gân a gafodd ei pherfformio gan Helen yn Chwarae Opera: yr 'Habanera' fythgofiadwy yn egluro mae cymeriad rhydd yw Carmen, 'mae fel aderyn gwrthryfelgar na all unrhyw un ei dofi'. Mae hi'n dyheu am 'fywyd seren roc a rôl' gydag Escamillo; ond un diwrnod, tra mae Carmen yn gwylio brwydr teirw, mae Don José yn aros amdani hi ac yn ymbil arni i ddychwelyd ato. Mae hi'n gwrthod, ac mae Carmen, ein harwres, yn cymryd ei hanadl olaf.

Penwisg Carmen

Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur argraffu
- Siswrn
- Glud
- Cerdyn tenau (bocs grawnfwyd gwag)
- Tâp gludiog



Argraffwch y PDF ar gyfer y blodau a'r dail.

Dylech allu dod o hyd i bedair PDF sy'n cynnwys delweddau o flodau a dail lliwgar, a ffeil PDF gyda thempledi ar gyfer tu blaen y goron.

Os yw'r delweddau rydych yn eu hargraffu'n denau ac yn plygu'n hawdd, gallwch eu gludio i ddarn o gerdyn tenau.

Beth am ddefnyddio bocs grawnfwyd gwag? Gofynnwch i oedolyn eich helpu.

Ar ôl i'r glud sychu, torrwch o amgylch y blodau, y dail a'r templedi ar gyfer tu blaen y goron yn ofalus.

Gosodwch y blodau a'r dail rydych wedi eu torri ar y siapiau ar gyfer tu blaen eich coron.

Arbrofwch hyd nes y byddwch yn hapus gyda gwedd eich coron.

Defnyddiwch lud neu dâp dwy ochr i lynu'r blodau a'r dail wrth rannau tu blaen y goron.

Cychwynnwch gyda'r blodau a'r dail yn y cefn, cyn eu haenu.








Torrwch ddarn o gerdyn addas (bydd rhaid i chi dorri dau ddarn a'u cysylltu gyda tâp) i wneud siâp crwn y goron a fydd yn eistedd ar eich pen.

Ond, cyn i chi gysylltu'r ddau ben ynghyd, gludwch neu defnyddiwch dâp i lynu eich blodau neu ddail i'r cerdyn fflat.








Yn olaf, cysylltwch ddau ben y goron gyda tâp gludiog fel ei bod hi'n ffitio eich pen.

Gwisgwch hi gyda balchder! Beth am gynnal eich perfformiad eich hun?





Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!



Dyma dempledi ar gyfer tu blaen eich coron.

- Argraffwch y dudalen hon, gludwch i gerdyn tenau, a thorrwch o amgylch siapiau'r templedi'n ofalus! Gofynnwch i oedolyn eich helpu.
- Nesaf, gosodwch y blodau a'r dail rydych wedi eu torri ar y siapiau ar gyfer tu blaen eich coron.
- Unwaith rydych yn hapus gyda mae'r goron yn edrych, defnyddiwch lud neu dâp dwy ochr i osod eich blodau a dail yn eu lle.

Templed coron blodau

Templed coron dail